**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1290
Ein cyf/Our ref JMSS/00909/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1290 Galluogi trigolion Cymru i gael mynediad at lwybr diagnosis "Hawl i Ddewis" y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer asesiad Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD).

Mae'r gwasanaeth iechyd yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli a gall Llywodraeth Cymru wneud pethau yn wahanol i Loegr, megis cynnig presgripsiynau am ddim. Nid oes gennym gynllun cyfatebol i'r "hawl i ddewis" yng Nghymru.

Dim ond yn ddiweddar mae cyflyrau niwroddatblygiadol, gan gynnwys ADHD wedi dod yn rhan o fy mhortffolio ond rwy eisoes yn ymwybodol o'r galw cynyddol a'r amseroedd aros hir ar gyfer asesu a diagnosis. Felly, ar 6 Gorffennaf gwnes i'r ymrwymiad i gyflwyno Rhaglen Wella newydd yn y maes Niwroddatblygiadol, sydd wedi'i chefnogi gyda £12 miliwn er mwyn gwella amseroedd aros, gwasanaethau a chymorth i deuluoedd.

Gan fod byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau megis asesiadau ADHD, bydd y Cynllun Gwella yn archwilio sut y mae byrddau iechyd yn darparu eu gwasanaethau ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ymateb i ddiagnosis preifat, sef mater a godwch yn eich llythyr.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â rhieni plant ag ADHD, ac o wrando ar eu profiadau rwy'n deall yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae hyn yn rheswm arall pam rwy wedi darparu buddsoddiad ychwanegol i wasanaethau i gynnwys cyngor a chymorth ychwanegol y mae mawr eu hangen.

Byddaf yn monitro cyflwyniad y rhaglen yn agos ac mae Grŵp Cynghori newydd y Gweinidog ar gyflyrau niwroddatblygiadol wedi'i sefydlu. Bydd y grŵp hwn yn rhoi cyngor i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mi ar gynnydd, ar feysydd o arfer gorau a ddaw i’r amlwg, ar opsiynau cyllido ac ar unrhyw faterion eraill a all fod o werth i unigolion niwrowahanol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Sefydliad ADHD a Lleisiau Rhieni yng Nghymru i edrych ar gyfleoedd i ddatblygu a pheilota gwasanaethau cymorth niwroddatblygiadol newydd yng Nghymru.

Rwy’n gobeithio bod fy ymateb yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ein bod yn gweithio tuag at wasanaeth niwroddatblygiadol gwell.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services